


# CYNGOR TREF RHUTHUN RUTHIN TOWN COUNCIL

Clerc y  
Dref

Neuadd y Dref  
Ffordd Wynnstay  
RHUTHUN  
LL15 1AS  
Ffôn: (01824) 703797  
e-bost: clerk@cyngortrefrhuthun.gov.uk



Town Hall  
Wynnstay Road  
RUTHIN  
LL15 1AS  
Tel: (01824) 703797  
e-mail: clerk@ruthintowncouncil.gov.uk

Clerc y Dref / Town Clerk: Dafydd Williams

Eich Cyf/Your Ref:

Ein Cyf/Our Ref:

Dyddiad/Date:

19 Hydref 2015

At Faer y Dref a'r Cynghorwyr  
**Cyngor Tref Rhuthun**

Annwyl Aelod

Gofynnir i chi fynychu Cyfarfod Arferol **CYNGOR TREF RHUTHUN** i'w gynnal yn **Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos LUN, 26 HYDREF 2015 am 7:00 p.m.** Nodir y busnes i'w drafod yno yn yr agenda isod.

Yn gywir

*Dafydd Williams*

Dafydd Williams  
**Clerc y Dref**

## **AGENDA**

- 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
- 2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**  
Datgelu buddiannau personol ac ariannol mewn eitemau busnes a restrir isod.
- 3. ADRODDIAD Y MAER**
- 4. ADRODDIADAU'R AELODAU**
- 5. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**  
I dderbyn a mabwysiadu fel cywir cofnodion Cyfarfod Arferol y Cyngor a gynhaliwyd ar 28 Medi 2015.
- 6. MATERION YN CODI**
- 7. PWYLLGOR AMWYNDERAU**  
I dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2015.
- 8. PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**  
I dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2015.

- 9. IS-BWYLLGOR ARCHWILIO ARIANNOL**  
I drefnu dyddiad ar gyfer cyfarfod yr Is-bwyllgor yma. Aelodaeth: Cyngor Elisabeth Culshaw, June Derry, Menna Jones a Geraint Woolford ynghyd a'r Maer a'r Dirprwy Faer.
- 10. CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL**  
**(a) CYMDEITHAS BAND PRES GOGLEDD CYMRU**  
I dderbyn ac ystyried Cais am Gymorth Ariannol (ynghyd a chopiau o'r Cyfrifon a Thafenni Banc) gan y Mudiad uchod sydd yn trefnu'r Bencampwriaeth Flynyddol yn Rhuthun ar ddydd Sadwrn, 21 Tachwedd 2015 (copiau glas).  
**(b) CYMDEITHAS DDINESIG RHUTHUN – DRYSAU AGORED**  
I dderbyn e-bost a thaenlen ddiwygiedig gan Robert Williams, Trysorydd y Mudiad uchod yn gofyn am gyfraniad ariannol o £731.95 sef y diffyg yn erbyn y ffigwr cyllid – cytunodd y Cyngor Tref i gyfraniad ychwanegol hyd at £1,000.00 yng nghyfarfod mis Mehefin 2015 (copi glas).  
**(c) CYNGOR AR BOPETH SIR DDINBYCH**  
I dderbyn ac ystyried llythyr gan y mudiad uchod yn gofyn am gymorth ariannol i gynorthwyo Biwro Rhuthun (copi melyn) – mae £2,000 yn y gyllideb ar gyfer y Mudiad yma..
- 11. MANDAD BANC – NEWID LLOFNODWYR**  
I dderbyn cadarnhad o newid Trefniadau Arwyddo gan Fanc Barclays, pedwar mis wedi ei gyflwyno (copi melyn).
- 12. SUL COFFA – 8 TACHWEDD 2015**  
I dderbyn manylion am y trefniadau ar gyfer Sul Coffa eleni (copi gwyn).
- 13. RALI CYMRU GB**  
I dderbyn ac ystyried e-bost ychwanegol oddi wrth Peter McDermott, Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau, Cyngor Sir Ddinbych (copi pinc).
- 14. CYNGOR SIR DDINBYCH – SIARTER GYDA CHYNGHORAU DINAS, TREF A CHYMUNEDAU**  
I dderbyn ac ystyried e-bost gan David W. Davies, Rheolwr Cymunedol, Cyngor Sir Ddinbych yn awgrymu newidiadau arfaethedig i'r Siarter (copi melyn).
- 15. CYNGOR SIR DDINBYCH – ADRAN CYFLEUSTERAU**  
I dderbyn diweddariad.
- 16. TREFNIADAU ARCHWILIO ALLANOL**  
I dderbyn llythyr gan Swyddfa Archwilio Cymru yn dweud mai BDO LLP fydd yr archwilydd [allanol] statudol o 2015 / 2016 am gyfnod o dair blynedd (copi gwyrdd).
- 17. GRŴP APWYNTIO CLERC Y DREF**  
I dderbyn diweddariad gan y Grŵp uchod.
- 18. DATGANIAD ARIANNOL**  
I dderbyn a mabwysiadu datganiad y Swyddog Ariannol Cyfrifol am y cyfnod yn diweddu 30<sup>ain</sup> Medi 2015 (copi gwyrdd).

## 19. CYFRIFON I'W TALU

I gymeradwyo talu'r eitemau canlynol:

S.O.	Canda Copying Ltd	Hurio Ffotogopiwr	*	129.14
786	Sandra Williams	Cyfieithu	*	90.00
787	Cyllid y Wlad	Treth ac Yswiriant Gwladol.		199.11
788	I.T. Williams Company Ltd	Cludo rhwystrrau i Sgwâr Sant Pedr – Marchnad Medi	*	180.00
789	Cyngor Sir Ddinbych	Gosod seddi a biniau ysbwriel newydd	*	1,194.00
790	Cymdeithas Cyngorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru	Cyfarfod 23 Hydref yn Y Fflint – Cinio x 2		30.00
791	Ruthin Memorials	Plac i Sedd Gyhoeddus		150.00
792	Canolfan Awelon	Hurio ystafell – 5 Hydref ar gyfer cyfweiliadau Clerc y Dref		15.00
793	Marian Rees	Cyfleusterau cyfieithu – 5 Hydref parthed cyfweiliadau Clerc y Dref	*	86.40
794	Fineline Printing	Cyflenwad swyddfa	*	17.44
795	G. J. Teeson Ltd.	Tarmac llwybr i'r ffyrnt o'r Parc Sgrialu	*	933.90
796	Canda Copying Ltd	Copiau ychwanegol – du a gwyn	*	8.78
797	Canda Copying Ltd	Copiau ychwanegol - lliw	*	101.14
798	Dafydd Williams	Arian parod – stampiau ayyb		25.00

(Mae'r eitemau a nodir gyda \* yn cynnwys T.A.W. y gellir ei adennill o £456.78)

## 20. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

I gadarnhau Nos Lun, 23 Tachwedd 2015 fel dyddiad y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref.

